OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 3368

# Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) (Cymru) 2005

## RHAN 4

Gweinyddu a Gorfodi yn Gyffredinol

**Gorchmynion gwahardd busnes bwyd anifeiliaid**

**21.**—(1) Os—

(a) collfernir gweithredwr busnes bwyd anifeiliaid o dramgwydd o dan gyfraith bwyd anifeiliaid benodedig; a

(b) bydd y llys sy'n collfarnu'r gweithredwr neu y collfernir y gweithredwr felly ger ei fron yn fodlon bod yr amod ynglŷn â risg i iechyd wedi'i fodloni mewn perthynas â'r busnes bwyd anifeiliaid dan sylw,

mae'n rhaid i'r llys drwy orchymyn osod y gwaharddiad priodol.

(2) Bodlonir yr amod ynglŷn â risg i iechyd mewn perthynas ag unrhyw fusnes bwyd anifeiliaid os bydd unrhyw un o'r canlynol yn cynnwys risg o niwed i iechyd (gan gynnwys amhariad, boed yn barhaol neu dros dro), sef—

(a) y defnydd o unrhyw broses neu driniaeth at ddibenion y busnes;

(b) adeiladu unrhyw fangre a ddefnyddir at ddibenion y busnes, neu'r defnydd o unrhyw offer at y dibenion hynny; ac

(c) cyflwr unrhyw fangre neu offer a ddefnyddir at ddibenion y busnes;

ac at ddibenion y paragraff hwn, ystyr "iechyd" yw iechyd anifeiliaid neu, drwy fwyta cynhyrchion anifail o'r fath, iechyd dynol.

(3) Y gwaharddiad priodol yw—

(a) mewn achos o dan is-baragraff (a) o baragraff (2), gwaharddiad ar y defnydd o'r broses neu'r driniaeth at ddibenion y busnes;

(b) mewn achos sy'n dod o dan is-baragraff (b) o'r paragraff hwnnw, gwaharddiad ar y defnydd o'r fangre neu'r offer at ddibenion y busnes neu unrhyw fusnes bwyd anifeiliaid o'r un dosbarth neu ddisgrifiad; ac

(c) mewn achos sy'n dod o dan is-baragraff (c) o'r paragraff hwnnw, gwaharddiad ar y defnydd o'r fangre neu'r offer at ddibenion unrhyw fusnes bwyd anifeiliaid.

(4) Os—

(a) collfernir gweithredwr busnes bwyd anifeiliaid o dramgwydd o dan gyfraith bwyd anifeiliaid benodedig; a

(b) cred y llys sy'n collfarnu'r gweithredwr neu y collfernir y gweithredwr felly ger ei bron ei bod yn briodol gwneud hynny o dan holl amgylchiadau'r achos,

caiff y llys, drwy orchymyn, osod gwaharddiad ar weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid rhag cymryd rhan mewn rheoli unrhyw fusnes bwyd anifeiliaid, neu unrhyw fusnes bwyd anifeiliaid o ddosbarth neu ddisgrifiad a bennir yn y gorchymyn.

(5) Cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl gwneud gorchymyn o dan baragraff (1) neu (4) (y cyfeirir ato fel "gorchymyn gwahardd busnes bwyd anifeiliaid" yn y Rheoliadau hyn), mae'n rhaid i'r awdurdod gorfodi—

(a) cyflwyno copi o'r gorchymyn i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid perthnasol; a

(b) yn achos gorchymyn a wnaed o dan baragraff (1), gosod copi o'r gorchymyn mewn man amlwg ar y cyfryw fangre a ddefnyddir at ddibenion y busnes bwyd anifeiliaid ag a gredant sy'n briodol,

ac mae unrhyw berson sy'n torri'r cyfryw orchymyn gan wybod ei fod yn gwneud hynny, yn euog o dramgwydd.

(6) Bydd gorchymyn gwahardd busnes bwyd anifeiliaid yn peidio â bod yn effeithiol—

(a) yn achos gorchymyn a wnaed o dan baragraff (1), ar ôl i awdurdod gorfodi ddyroddi tystysgrif i'r perwyl ei fod yn fodlon bod gweithredwr y busnes bwyd anifeiliaid wedi cymryd camau digonol i sicrhau nad yw'r amod ynglŷn â risg i iechyd wedi'i fodloni mwyach mewn perthynas â'r busnes bwyd anifeiliaid; a

(b) yn achos gorchymyn a wnaed o dan baragraff (4), ar ôl i'r llys roi cyfarwyddyd i'r perwyl hwnnw.

(7) Mae'n rhaid i'r awdurdod gorfodi ddyroddi tystysgrif o dan is-baragraff (a) o baragraff (6) o fewn tri diwrnod ar ôl bod yn fodlon fel y cyfeiriwyd ato yn yr is-baragraff hwnnw; ac ar ôl i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid wneud cais am y cyfryw dystysgrif, mae'n rhaid i'r awdurdod—

(a) penderfynu, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol a sut bynnag o fewn 14 diwrnod, p'un a yw wedi'i fodloni felly ai peidio; a

(b) os yw'n penderfynu nad yw wedi'i fodloni felly, hysbysu gweithredwr y busnes bwyd anifeiliaid o'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

(8) Mae'n rhaid i'r llys roi cyfarwyddyd o dan is-baragraff (b) o baragraff (6) os cred y llys, ar ôl i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid wneud cais, ei bod yn briodol gwneud hynny mewn perthynas â holl amgylchiadau'r achos, gan gynnwys yn benodol ymddygiad gweithredwr y busnes bwyd anifeiliaid ers i'r gorchymyn gael ei wneud; ond ni ellir ystyried cais o'r fath os y'i gwneir—

(a) o fewn chwe mis i wneud y gorchymyn gwahardd busnes bwyd anifeiliaid; neu

(b) o fewn tri mis ar ôl i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid wneud cais blaenorol am gyfarwyddyd o'r fath.

(9) Pan fo llys ynadon yn gwneud gorchymyn o dan reoliad 22(2) mewn perthynas ag unrhyw fusnes bwyd anifeiliaid, bydd paragraff (1) yn gymwys os collfarnwyd gweithredwr y busnes bwyd anifeiliaid gan y llys o dramgwydd o dan gyfraith bwyd anifeiliaid benodedig.

(10) Pan fo tramgwydd gan weithredwr busnes bwyd anifeiliaid yn arwain at gollfarnu person arall yn unol â rheoliad 35(1), bydd paragraff (4) yn gymwys mewn perthynas â'r person arall hwnnw fel y mae'n gymwys i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid ac mae'n rhaid dehongli unrhyw gyfeiriad ym mharagraff (5) neu (8) at weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid yn unol â hynny.